# Fforwm Mynediad Lleol Dwyrain Conwy a Sir Dinbych

Dydd Mercher 22 Mawrth 2023

Coed Pella
Ffordd Conwy
Bae Colwyn
LL29 7AZ

## RHAGLEN

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Croeso a Chyflwyniadau | SB / Pawb |
| 2. | Camau nesaf Fforwm Mynediad Lleol Dwyrain Conwy a Sir Ddinbych | SBR |
| 3. | Y wybodaeth ddiweddaraf o Gonwy a Sir Ddinbych ynghylch Grantiau Gwella Mynediad (CBSC / CSDd) | SBR |
| 4. | Y wybodaeth ddiweddaraf o Gonwy a Sir Ddinbych ynghylch Mynediad (CBSC / CSDd) | SBR/ AW/ HA |
| 5. | Datganiadau o ddiddordeb yn swyddi Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Fforwm | Pawb |
| 6. | Ailgynnull y Fforwm i Ethol Cadeirydd | SB |
| 7. | Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd | SB |
| 8. | Y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru | AJW |
| 9. | Eitemau ar gyfer rhaglen y cyfarfod nesaf a'r dyddiad | Pawb |
| 10. | | |

## Yn bresennol

| | | |
|---|---|---|
| Simon Billington | SB | CBSC |
| Sophie Birchall-Rogerson | SBR | CBSC |
| Bethan Roberts | BR | CBSC (Cofnodion) |
| Y Cyng. Goronwy Edwards | GE | CBSC |
| Paul Frost | PF | Partneriaeth Awyr Agored / Perchennog Tir |
| Heather Fitzgerald | HF | AHNE |
| Tom Woodall | TW | Preswylydd lleol CSDd |
| Kevin Slattery | KS | Conwy Valley Ramblers |
| Hugh Crosswood | HC | Aelod o'r fforwm blaenorol |
| Adrian Walls | AW | CSDd |
| Howard Sutcliffe | HS | AHNE yn CSDd |
| Hannah Arndt | HA | CSDd/ysgrifennydd y fforwm blaenorol |
| Duncan Barratt | Ymddiheuriadau: | |
| | | |
| | | |
| | | |

## COFNODION

| Eitem | | Ymwybyddiaeth |
|---|---|---|
| **1.0** | **Croeso a Chyflwyniadau** | |
| 1.1 | Croesawodd SB bawb i'r cyfarfod. Cyflwynodd y mynychwyr eu hunain. | |
| **2.0** | **Camau nesaf Fforwm Mynediad Lleol Dwyrain Conwy a Sir Ddinbych** | |
| 2.1 | Dechreuodd SBR y cyfarfod ac eglurodd mai'r rheswm dros y cyfarfod oedd er mwyn ailgysylltu aelodau ac ail-sefydlu'r fforwm.<br><br>Cyflwynodd SBR Wefan CBSC ac eglurodd fod y tudalennau wedi cael eu diweddaru i hysbysu'r cyhoedd a cheisio ceisiadau ar gyfer 12-20 o gynrychiolwyr i greu Fforwm newydd. Eglurodd y bydd y grŵp yn darparu gwelliannau i'r dyfodol ar y rhwydwaith hawliau tramwy a phwysleisiodd y pwysigrwydd o ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn sicrhau grŵp amrywiol o aelodau.<br><br>Nododd SBR bod y ffurflen gais ar-lein bellach ar agor a dangosodd sut i ymgeisio. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Gwahoddodd SBR y grŵp i awgrymu dyddiad cau priodol ar gyfer ceisiadau a chytunwyd y byddent yn derbyn ffurflenni cais tan ddiwedd yr haf.<br><br>Roedd AW yn bryderus na fyddai'r fforwm yn gytbwys.<br><br>Nododd SBR y bydd negeseuon cyfryngau cymdeithasol yn cael eu rhannu rhwng rŵan a'r dyddiad cau er mwyn annog ymgeiswyr a gofynnodd i aelodau'r cyfarfod estyn allan i unrhyw unigolion yr oeddent yn credu allai fod yn addas ar gyfer y rôl er mwyn annog gymaint o bobl â phosibl i gymryd rhan.<br><br>Eglurodd HS bod cynnydd wedi bod yn nifer y ceisiadau cynllunio gan ffermwyr i arallgyfeirio ar gyfer defnyddiau twristiaeth a nododd y dylai'r gymuned ffermio gymryd rhagor o ran yn y fforwm.<br><br>Awgrymodd SB y dylai'r grŵp delfrydol gynnwys cydbwysedd da o ddefnyddwyr Hawliau Tramwy Gyhoeddus a pherchnogion tir, a nododd bod Awdurdodau Lleol yn aml iawn yn barti canolog rhwng y ddau, felly byddai'r fforwm yn lle da i'r ddwy ochr ddod at ei gilydd a chydweithio.<br><br>Awgrymodd SB y gellid cael asiantau tir fel cynrychiolwyr a phwysleisiodd y pwysigrwydd o sicrhau y rhennir y newyddion bod ceisiadau bellach ar agor gyda chymaint o bobl â phosibl.<br><br>Awgrymodd AW CNC a LlC fel cyrff pwysig i gymryd rhan gan y byddent yn gallu ymateb i faterion na fyddai Awdurdodau Lleol yn gallu ymateb iddynt o bosibl neu'n gallu eu helpu i gymryd y camau priodol.<br><br>Awgrymodd SB y gallai fforymau'r dyfodol ddefnyddio dulliau cyfarfod hybrid er mwyn i bawb fedru mynychu'r grŵp yn rhwydd, a allai wella presenoldeb hefyd. | |

| | | |
|---|---|---|
| 2.2 | Mynegodd TW bod yr amser a ragwelir ar gyfer y broses o sefydlu'r fforwm yn rhy hir a gofynnodd a fyddai modd ei ddwyn ymlaen. Cwestiynodd hefyd faint o waith fyddai'r fforwm yn gallu ei wneud o ystyried mai dim ond dwywaith y flwyddyn y bydd yn cyfarfod.<br><br>Ymatebodd AW gan ddweud y bydd yn rhaid iddynt gael gwybod pa aelodau sydd heb fynychu er mwyn darganfod nifer yr aelodau posibl cyn gallu sefydlu'r fforwm. Ychwanegodd hefyd bod y fforwm wedi bod yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn yn y gorffennol.<br><br>Nododd HA y bydd yn cysylltu gyda CNC i ofyn iddynt gymryd rhan yn y cyfarfodydd.<br><br>Gofynnodd TW os mai bwriad y cyfarfod hwn oedd annog hen aelodau i gymryd rhan, gofynnodd hefyd onid oes modd creu fforwm newydd a beth ddylid ei wneud yn y cyfamser.<br><br>Eglurodd SBR y sefydlwyd y cyfarfod hwn fel trefniant dros dro nes bydd y fforwm newydd wedi'i sefydlu, er mwyn arwain y ffordd ymlaen a rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf gydag aelodau'r fforwm blaenorol ar y gwaith sydd wedi bod yn mynd rhagddo ac ar y gweill a cheisio adborth ganddynt.<br><br>Cytunodd HS bod y cyfarfod presennol yn dangos y bwriad a'r gefnogaeth, a nododd y bydd angen cynnal cyfarfod arall er mwyn cadw'r momentwm. | **HA i gysylltu â CNC** |
| 2.3 | Nododd HS ei fod wedi gobeithio cael cworwm er mwyn ethol cadeirydd, neu gadeirydd dros dro nes gellid ethol cadeirydd yn yr haf. Nododd TW na ellir galw'r cyfarfodydd dros dro hyn yn "Fforwm Mynediad Lleol" a chytunodd SBR i newid y cyfarfodydd dros dro i CDLAM (Cyfarfodydd Mynediad Lleol Conwy a Sir Ddinbych) nes bydd y fforwm newydd wedi cael ei sefydlu'n gyfreithiol tua diwedd y flwyddyn.<br><br>Nododd GE bod gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd statudol felly dylai'r fforwm fod yn ystyrlon a chytunodd i lunio rhestr o berchnogion tir a defnyddwyr. Eglurodd GE bod disgwyliadau ar gyfer defnyddio tir yn fwy nag erioed felly roedd yn bwysig mynd i'r afael â hyn yn gywir. Mynegodd y pwysigrwydd o gael pobl sy'n cynrychioli bob mathau o ddefnyddiau.<br><br>Cytunodd PF nad oedd modd i'r grŵp symud ymlaen fel unrhyw beth arall oni bai am grŵp ymgynghorol. Nododd y dywedwyd bod y fforwm wedi 'dod i ben' ar ddiwedd y fforwm diwethaf yn 2019. Mynegodd PF bod angen ymchwilio i hyn a pham ei fod wedi cymryd gymaint i gyrraedd y pwynt hwn, ac eglurodd mai'r un wynebau oedd yn mynychu'r cyfarfodydd yn y fforwm blaenorol. Fodd bynnag, roedd rhai pobl yn mynychu'n ddirybudd ac yn afreolaidd. Roedd eraill yn mynychu'n aml ond nid oeddent yn cyfrannu.<br><br>Ychwanegodd PF bod angen i ragor o bobl mewn rôl ymgynghorol fynychu a rhannodd bryderon bod cynrychiolaeth dda ar y fforwm blaenorol gan CSDd ond nid oedd digon o gefnogaeth gan CBSC.<br><br>Gofynnodd PF faint o ymrwymiad fyddai Conwy'n ei roi ac a oeddent yn ystyried y fforwm fel ymarfer ticio bocs, eglurodd hefyd ei fod wedi ceisio ail-sefydlu'r fforwm yn ystod covid. | **SBR i newid teitl y cyfarfod** |

| | | |
|---|---|---|
| | Eglurodd AW ei fod yn anodd ail-sefydlu’r cyfarfod eto ar ôl Covid, fodd bynnag, Conwy oedd wedi cyflwyno’r cynnig i ail-sefydlu’r cyfarfod. Roedd yn gwerthfawrogi sylwadau PF ond yn gwybod bod Conwy, a SBR yn arbennig, wedi cymryd rôl arweiniol yn y broses o gael pawb i’r cyfarfod heddiw.<br><br>Nododd PF y dwedwyd wrtho nad oedd modd parhau â’r fforwm yn flaenorol gan nad oeddent yn gallu cael ysgrifennydd, roedd wedi cynnig ymgymryd â’r rôl, ond dywedwyd wrtho y byddai dal yn amhosibl. Roedd PF yn teimlo nad oedd parodrwydd i barhau gyda’r fforwm yn flaenorol, ond roedd yn falch o weld gymaint o wynebau newydd yn y cyfarfod hwn sy’n arwydd cadarnhaol.<br><br>Eglurodd SBR mai newydd ddechrau ei swydd newydd oedd hi ym mis Mehefin yn dilyn ymddeoliad deiliad blaenorol y swydd ac roedd hi wedi ceisio rhoi mesurau ar waith i symud ymlaen â’r broses o sefydlu fforwm newydd cyn gynted â phosibl.<br><br>Eglurodd bod gwaith ailstrwythuro wedi bod o fewn yr amserlen a chadarnhaodd nad oedd CBSC yn ystyried y fforwm fel ymarfer ticio bocs. Byddai cyfarfodydd dros dro’n cael eu trefnu er mwyn sicrhau bod y bobl gywir yn cael eu cynnwys ac i geisio barn gan gynrychiolwyr er mwyn sicrhau fod pethau’n symud yn eu blaenau. Eglurodd SB bod y cyfarfod yn ymwneud â symud ymlaen a chyflwyno’r cefndir ar sut fyddai cyfarfodydd a fforymau’n edrych i’r dyfodol. Dywedodd SB y byddai’n ystyried y sylwadau ac yn awyddus i wybod y pethau da a’r pethau drwg o’r fforymau blaenorol. | |
| 2.4 | Mynegodd KS y pwysigrwydd o sicrhau fod y fforwm ar gael i bobl gael mynediad ato. Nododd bod y cyfnod Covid wedi rhoi cyhoeddusrwydd i’r ardal leol sydd wedi arwain at broblemau parcio, ac awgrymodd y dylid ymgysylltu ag aelod o’r adran Cludiant Cyhoeddus er mwyn mynd i’r afael â’r problemau hyn a sicrhau system cludiant cyhoeddus effeithiol.<br><br>Cytunodd HS a nododd bod y bws o Gorwen i Fangor yn wych ac roedd angen codi ymwybyddiaeth am y gwasanaeth a’i integreiddio yn y gwaith rydym yn ei wneud. | |

| | | |
|---|---|---|
| 2.5 | Cynigodd SBR BR fel ysgrifennydd dros dro ac awgrymodd y gellid cynnal cyfarfod ymgynghorol ar bynciau arbennig.<br><br>Cynigodd AW sefydlu strwythur lle gall aelodau gyflwyno problemau i'r ysgrifennydd i'w trafod gyda'r cadeirydd a fydd yn hwyluso'r materion y mae'r grŵp yn awyddus i'w trafod, er mwyn sicrhau nad yw Awdurdodau Lleol yn arwain y grŵp i drafod materion penodol.<br><br>Mynegodd TW yr angen i'r fforwm wybod beth sydd ar y gweill er mwyn i aelodau fedru cynnig cyngor ar y gwaith ond yn yr un modd, dylid hefyd rhoi cyfle i aelodau gyflwyno materion y maen nhw'n credu sy'n ymofyn sylw pellach, gan osod lefel o weithio sy'n sicrhau cydbwysedd a heb fod yn rhy strategol, sy'n dangos pam bod rhaid i'r Awdurdod Lleol ystyried materion penodol ond bod aelodau hefyd yn gallu cyflwyno materion i'w trafod.<br><br>Nododd GE, o safbwynt Awdurdod Lleol, y byddant yn gwneud eu gorau i gyflawni rôl statudol, fodd bynnag, roedd sut fydd budd-ddeiliaid yn dod at ei gilydd i fynd i'r afael â materion i fyny iddyn nhw. Byddai CBSC bob amser yn ceisio cyflawni eu dyletswyddau statudol, fodd bynnag, byddai 2 filiwn yn llai yn y gyllideb i fynd i'r afael â'r materion hyn ac roedd yn rhaid i CBSC fod yn glir o ran y cyllid sydd ar gael iddynt er mwyn gwybod beth sy'n ymarferol.<br><br>Gofynnodd PF a oedd modd cael grantiau gan y Llywodraeth neu rywun arall. Roedd o'r farn bod defnyddio £177,000 ar gyfer llwybr beics yn ddadleuol, ac nid oedd unrhyw gyhoeddusrwydd nac ymgynghoriad ynghlwm â'r gwariant hwn. Dywedodd y byddai'r fforwm yn rhoi cyfle i bobl ddweud eu dweud ynghylch gwariant.<br><br>Eglurodd GE bod Dyffryn Conwy wedi ennill cais am grant ffyniant bro, bydd y gwariant hwn yn cael ei ddylanwadu gan Lywodraeth Cymru, a fydd yn newyddion da i rai a ddim i eraill.<br><br>Anogodd SBR pawb i ddefnyddio'r cyfleuster 'rhoi gwybod' er mwyn i CBSC fedru gweld y materion a gaiff eu cyflwyno a gwneud penderfyniadau gwybodus ar sut i wario arian. Mynegodd yr angen i CBSC fod yn dryloyw o ran sut caiff arian ei wario a sut maent yn dewis y gwaith. Ond bydd yn rhaid i'r fforwm ddarparu gwybodaeth er mwyn i CBSC fedru gweld y blaenoriaethau a helpu i wneud penderfyniadau a hyrwyddo gwaith.<br><br>Mynegodd AW mai'r broblem gyda theithio llesol oedd eu bod yn derbyn llawer o ymatebion i ymgynghoriadau agored ar gyfer prosiectau mynediad ac ymgyrchoedd ar gyfer ardaloedd nad ydynt yn y lleoliad hwnnw. Eglurodd bod cynlluniau cludiant lle gellir ond gwario'r arian mewn ardaloedd penodol. | |
| **3.0** | **Y wybodaeth ddiweddaraf o Gonwy a Sir Ddinbych ynghylch Grantiau Gwella Mynediad (CBSC / CSDd)** | |
| 3.1 | Rhannodd SBR gyflwyniad Power Point o'r gwaith mae CBSC wedi'i gwblhau ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus dros y misoedd diwethaf a mynegodd y byddai hi'n awyddus i gasglu catalog trwy gydol y flwyddyn o waith a gwblhawyd ac sydd ar y gweill er mwyn rhoi cipolwg o'r hyn sydd | |

| | | |
|---|---|---|
| | wedi cael ei gwblhau hyd yma a'r hyn sydd wedi'i nodi fel gwaith posibl yn y dyfodol yn amodol ar gymeradwyaeth ariannol.<br><br>Awgrymodd HS y byddai cyflwyniad yn helpu pobl i awgrymu lleoliadau eraill sydd mewn cyflwr tebyg.<br><br>Cytunodd SBR a chynigodd y gellid defnyddio'r catalog i hyrwyddo defnydd hefyd.<br><br>Nododd KS ei fod wedi rhoi lluniau ar y dudalen Rambles er mwyn dangos i bawb beth oedd wedi cael ei wneud a chyflwyno wyneb positif Conwy. Pwysleisiodd hefyd y pwysigrwydd o ddangos lluniau cyn ac ar ôl a diolchodd i SBR. | |
| 3.2 | Gofynnodd PF a oedd unrhyw waith yn mynd rhagddo i liniaru llwybr amgen yn Black Cat, a gofynnodd hefyd sut roedd Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd.<br><br>Ymatebodd GE gan ddweud ei fod yn trafod hyn gyda CNC a RSPB, bydd ar CBSC angen 2 filiwn allan o'r 20 miliwn y bydd yn ei gostio i gwblhau'r gwaith. Disgrifiodd GE y gwahanol gamau o'r gwaith, yn arbennig yng Nglan Conwy.<br><br>Nododd SB, o ran gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd, nad oedd gan CBSC adnodd arbennig ar gyfer adolygu Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Roedd arolwg 5% yn cael ei gynnal bob blwyddyn gan fyfyrwyr i asesu mynediad. Roedd CBSC yn hyrwyddo'r cyfleuster ar gyfer rhoi gwybod am faterion ac yn ymateb yn briodol i unrhyw fater a gaiff ei gyflwyno yn ddibynnol ar yr adran sy'n gyfrifol am y gwaith cynnal a chadw. Eglurodd SB nad oedd gan CBSC Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus, ond rhennir y cyfrifoldeb rhwng tîm ehangach o Swyddogion Cynnal a Chadw Ardaloedd sydd i gyd wedi cwblhau'r cwrs Hawliau Tramwy Cyhoeddus, fel eu bod yn gymwys i ymdrin ag unrhyw ymholiad.<br><br>Cadarnhaodd PF fod ganddo ddau reswm dros ofyn hyn; roedd myfyriwr wedi gofyn i groesi ei dir i archwilio Hawl Tramwy a oedd wedi bod yn cael ei rwystro gan gymydog ers blynyddoedd, ac roedd yn awyddus i wybod beth oedd canlyniad yr archwiliad hwn. Yn ogystal â hynny, yn y fforwm diwethaf, roedd wedi cyflwyno'r syniad o recriwtio gwirfoddolwyr o'r Ramblers i wneud hyn. Soniodd y byddai Mr a Mrs Buckley a oedd yn cynrychioli'r Ramblers yn agored i gael eu recriwtio i gerdded ar hyd y llwybrau, ond roedd arnynt angen gwybod pa adrannau gan ei bod yn anodd gwybod pa rai i fynd i'r afael â hwy yn gyntaf. Gofynnodd PF am farn CSDd a CBSC ynghylch defnyddio gwirfoddolwyr ar gyfer hyn?<br><br>Nododd SB bod CBSC wedi ailstrwythuro a chanoli swyddogaethau ledled y sir a bod SBR yn angerddol am ddatblygu'r Fforwm Mynediad Lleol, fodd bynnag, fel yr oedd GE wedi'i amlygu, nid oes gan CBSC yr arian i wneud popeth, ond roeddent yn gobeithio defnyddio'r grŵp newydd i rannu syniadau ar sut i wario cyllidebau cyfyngedig a darparodd sicrwydd i'r grŵp o'u hymrwymiad parhaus i gydweithio fel fforwm.<br><br>Cytunodd PF i dynnu llinell dan y grŵp blaenorol ac roedd yn gobeithio gwybod p'un a fyddai modd defnyddio gwirfoddolwyr i'r dyfodol ac yn gwerthfawrogi'r anawsterau roedd Awdurdodau Lleol yn eu hwynebu. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Nododd KS, o safbwynt y Ramblers, y dylent bob amser amlygu unrhyw broblemau sylweddol â llwybr, fodd bynnag, roeddent yn gyndyn o wneud cwynion am broblemau bach. Nododd y byddai cerdded bob un o'r llwybrau'n anodd, fodd bynnag, os oedd PF yn hapus i rannu pa lwybr oedd wedi'i rwystro ar ei dir, byddai'r ramblers yn hapus i wneud y gwaith.<br><br>Nododd SBR ei bod wedi bod cael trafodaethau â'r ramblers mewn cyfarfodydd yn ddiweddar am y syniad o sefydlu adroddiadau ar ba faterion sydd wedi cael eu nodi a'u lleoliad ar y rhwydwaith a'r ystadegau.<br><br>Gofynnodd TW a oedd y cynllun gwella hawliau tramwy yn cynnig arweiniad i wariant/flaenoriaethau ariannol.<br><br>Nododd SBR ei bod wedi dechrau datblygu rhaglen waith i'r dyfodol a gaiff ei blaenoriaethu yn ôl risg, angen ac argaeledd grantiau/cyllidebau. Nododd hefyd bod y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn cynnig arweiniad o ran ar beth y dylid canolbwyntio a ble i geisio cyllid er mwyn gwella mynediad ynghyd ag elfennau eraill, megis ystyried pa welliannau y gellir eu gwneud i fioamrywiaeth. | |
| **4.0** | **Y wybodaeth ddiweddaraf o Gonwy a Sir Ddinbych ynghylch Mynediad (CBSC / CSDd)** | |
| 4.1 | Cyflwynodd HA gyflwyniad PowerPoint i'r grŵp yn egluro bod Swyddog wedi cwblhau arolwg o'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus o fewn CSDd ac wedi blaenoriaethu'r llwybrau sy'n ymofyn sylw.<br><br>Derbyniodd CSDd gyllid gan yr UE ar gyfer gwelliannau cymunedol mewn lleoliadau lle'r oedd y mynediad at Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn wael, a oedd yn ffordd wych o wella'r rhwydwaith. Eglurodd HA bod CSDd wedi bod yn gweithio gyda chynllun hamdden ar gyfer ardaloedd cynnal tiroedd ac wedi nodi problemau â pharcio ceir. Roeddent hefyd wedi comisiynu astudiaeth ar sut i rannu'r llwyth fel nad yw pawb yn mynd i'r prif feysydd parcio ac i roi llwybrau cyfforddus iddynt sy'n cynnig llefydd synhwyrol i bobl barcio eu ceir. Gwnaethpwyd gwelliannau i lwybrau ceffylau hefyd.<br><br>Eglurodd AW ganlyniadau CSDd o'u harolwg 5% blynyddol yn ogystal â chanlyniadau'r arolwg a gwblhawyd ar y rhwydwaith cyfan. Eglurodd eu bod wedi categoreiddio'r llwybrau fel a ganlyn:<br>Gwyrdd - wedi pasio<br>Glas - mân anghyfleustra e.e. arwydd ar goll<br>Piws - gallu cerdded ar hyd y llwybr ond mae'n bosibl na fydd yn brofiad pleserus<br>Coch - methu pasio<br><br>Gellir defnyddio'r lliwiau uchod i nodi cymunedau sy'n ymofyn rhagor o sylw, hynny ydi, os oes mwy o ardaloedd coch a phiws yno.<br><br>Nodwyd bod Gorllewin y sir yn waeth na'r Dwyrain, ac felly mae modd nawr canolbwyntio ar ardaloedd coch a mynd i'r afael â'r problemau ar unwaith.<br><br>Mynegodd SBR ei gwerthfawrogiad o'r hyn roedd HA ac AW wedi'i gyflwyno a nododd fod gan CBSC hefyd gyfoeth o ddata ac yn datblygu dulliau tebyg, awgrymodd y gellid cyflwyno data/adroddiadau fel hyn | |

| | | |
|---|---|---|
| | mewn cyfarfodydd yn y dyfodol fel diweddariadau safonol er mwyn nodi unrhyw broblemau cyffredin rhwng y ddau awdurdod i sicrhau'r effaith orau bosibl.<br><br>Parhaodd AW gyda'r cyflwyniad a nododd bod yr arolwg wedi dangos bod camfeydd a gafodd eu gosod 10 mlynedd yn ôl bellach yn dirywio ac felly roeddent yn rhagweld y byddai camfeydd eraill yn dirywio mewn ardaloedd eraill. Eglurodd, gan fod y camfeydd pren yn dirywio, roedd CSDd yn awyddus i ddefnyddio giatiau, ond roedd y rhain yn llawer drytach i'w prynu. Fodd bynnag, nodwyd bod y gymuned ffermio yn fwy parod i gael giatiau ar eu heiddo yn hytrach na derbyn offer i adeiladu a gosod camfa eu hunain. Roedd rhagor o atebolrwydd ynghlwm â chamfa wedi torri a byddai'r giât yn cael ei chodi i safon benodol.<br><br>Soniodd HC y byddai hyn hefyd yn ei gwneud yn haws i bobl fynd â chŵn ar hyd y llwybrau.<br><br>Awgrymodd GE bod rhagor o alw am fynediad anabl sy'n golygu nad oedd giatiau mochyn yn ffafriol.<br><br>Eglurodd AW bod HA ar hyn o bryd yn gweithio ar brosiectau ac yn hyrwyddo llwybrau anabl.<br><br>Ychwanegodd GE bod SBR yn gweithio ar rai problemau mynediad gyda llwybrau troed i ddefnyddwyr anabl.<br><br>Awgrymodd TW y gellid ystyried rhoi penderfyniad strategol at ei gilydd ar gyfer cynllun gwella.<br><br>Cytunodd AW y gellid cynnwys hyn mewn rhyw fath o asesiad neu raglen gwaith i'r dyfodol a llunio dogfen er mwyn gwybod beth sy'n cael ei wella a dangos y buddion gwirioneddol.<br><br>Nododd TW fod ganddo ddata y gallai ei rannu. | |
| **5.0** | **Datganiadau o ddiddordeb yn swyddi Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Fforwm** | |
| 5.1 | Rhoddodd AW wybod bod ar y fforwm angen cadeirydd i arwain a chadw trefn yn y cyfarfodydd er mwyn atal swyddogion rhag arwain y grŵp.<br><br>Argymhellodd SBR mai pwrpas y cyfarfod hwn oedd cael pobl at ei gilydd nes bydd fforwm newydd wedi'i sefydlu, ac unwaith y byddai'r broses ymgeisio wedi'i chwblhau a'r fforwm newydd wedi'i sefydlu, gellid penderfynu ar gadeirydd.<br><br>Cytunodd GE nad oedd aelodau'n gallu penderfynu ar gadeirydd ar hyn o bryd gan fod nifer anghymesur o swyddogion yn y cyfarfod. Byddai'n rhaid cael cynrychiolwyr eraill o CNC a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol er enghraifft yn bresennol. | |
| **6.0** | **Y camau nesaf** | |
| 6.1 | Agorodd SBR drafodaeth a rhestrodd y camau gweithredu ar gyfer y cyfarfod nesaf: | |

<table>
<tr>
<td></td>
<td>
<ul>
<li>Estyn allan i CNC</li>
<li>Newid yr enw ar y rhaglen o ‘fforwm’ i ‘cyfarfod’</li>
<li>Creu cyfeiriad e-bost newydd</li>
<li>BR i rannu’r cyfeiriad e-bost newydd</li>
<li>Pawb i estyn allan a rhoi gwybod i unigolion priodol bod y dudalen ymgeisio bellach ar agor.</li>
</ul>
Ychwanegodd SB y dylid dechrau drwy greu cynllun cyfathrebu a’i rannu gyda’r Ramblers a grwpiau perthnasol.
Cynigodd HA bod CSDd a CBSC yn rhannu eu cynlluniau cyfathrebu ac yn cyhoeddi’r ffurflen gais gyda’i gilydd er mwyn osgoi diffyg cynrychiolaeth.  Awgrymodd hefyd y dylai rhywun o Gymdeithas Ceffylau Prydain gymryd rhan.
Awgrymodd HF y dylid cysylltu â’r Gymdeithas Goedwigaeth Frenhinol.
Gofynnodd AW sut oedd strwythur CBSC yn gweithio gan y byddai’n ddefnyddiol cael cynrychiolydd i leisio eu barn ar ddefnydd hamddenol o ffyrdd di-ddosbarth.   Gofynnodd AW i SB a oedd y rhwydwaith ffyrdd yn rhan o’i gylch gwaith neu a oedd hyn yn dod o dan adran arall.
Eglurodd SB bod traffig yn fater rheoli priffyrdd a bod swyddogaethau rheoli priffyrdd i gyd yn dod o dan yr un Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth. Eglurodd fod gan SBR brofiad blaenorol a chefndir da gyda chyfraith priffyrdd a bod ganddi hi fynediad at ei thîm rheoli asedau blaenorol.  Pwysleisiodd hefyd, yn yr un modd â CSDd, fod gan CBSC gyfoeth o ddata a’u bod yn defnyddio dull sy’n seiliedig ar ddata.
Gofynnodd SB a oedd cadeirydd yn angenrheidiol ac os oedd pawb yn hapus i BR gydlynu’r cyfarfodydd dros dro. Byddai’r rôl yn cynnwys derbyn ffurflenni cais, a gobeithio, mewn tua 3 mis, y byddwn mewn sefyllfa i benderfynu ar aelodau’r fforwm newydd yn dilyn y broses ymgeisio.
Nododd SBR y byddai hi’n creu ac yn rhannu e-bost cyswllt canolog er mwyn i aelodau fedru rhannu unrhyw syniadau perthnasol yr hoffent eu trafod yn y cyfarfod nesaf.
Gofynnod BR i unrhyw un sy’n nodi unrhyw broblemau ar y rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus barhau i ddefnyddio’r porth ‘rhoi gwybod’ yn hytrach na’r e-bost generig gan fod proses archwilio swyddogol ar gyfer ymdrin â materion fel hyn.
</td>
<td></td>
</tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| 6.2 | Gofynnodd GE a oedd pawb ar gael ar gyfer y cyfarfod nesaf a holodd am y posibilrwydd o'i gynnal gyda'r nos er mwyn gwella presenoldeb.<br><br>Nododd AW, unwaith y byddai'r fforwm wedi'i sefydlu, y gallai aelodau gytuno ar ba mor aml hoffent gyfarfod a phryd.<br><br>Awgrymodd PF y dylid sefydlu rhaglen i ddangos sut fyddai'r grŵp yn symud yn ei flaen a beth fyddai'n digwydd dros y misoedd nesaf.<br><br>Cytunodd SBR ac awgrymodd y gellid rhannu'r rhaglen ar wefannau CBSC a CSDd.<br><br>Nododd PF y byddai'n syniad da edrych yn ôl i weld beth oedd wedi cael ei wneud a beth oedd ar y gweill i'r dyfodol. | |
| 6.3 | Nododd TW y byddai ef ar gael yn ystod y cam dros dro i gynnig cefnogaeth a chreu fforwm newydd yn hytrach nag ystyried busnes cyffredinol y fforwm. Argymhellodd fforwm dan arweiniad Swyddogion a chadeiryddiaeth yr Awdurdod Lleol gyda'r pwrpas o sefydlu fforwm. Awgrymodd y tro nesaf y byddai'r grŵp yn cyfarfod y dylent osgoi ceisiadau gan wirfoddolwyr annibynnol, a nododd y byddai'n hapus i helpu gyda'r cylch gorchwyl i sicrhau'r lefel strategol gywir.<br><br>Gellid gweithio gyda rhwystrau anabledd yn y cyfnod dros dro.<br><br>Noddodd SBR, unwaith y byddai'r ceisiadau wedi'u gwirio, y gallant ddechrau drafftio cylch gorchwyl. | |
| 6.4 | Awgrymodd HS y gellid cynnal y cyfarfodydd mewn lleoliadau gwahanol.<br><br>Awgrymodd SB y gellid defnyddio dull hybrid.<br><br>Cytunodd HS, nododd y gellid defnyddio dull hybrid yn Neuadd y Sir.<br><br>Awgrymodd SBR y dylai CSDd ddewis y lleoliad nesaf ar gyfer y cyfarfod.<br><br>Awgrymodd AW Abergele. | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |